PWYLLGOR CRAFFU
DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

15FED IONAWR 2018

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
J.A. Davies, P.M. Edwards, A.L. Fox, T.M. Higgins, T.A.J. Davies, A. Vaughan Owen, J.S. Phillips a D. Thomas.

Y Cynghorydd K.V. Broom – yn lle'r Cynghorydd A. Davies;
Y Cynghorydd W.T. Evans – yn lle'r Cynghorydd S.J.G. Gilasbey;
Y Cynghorydd J.K. Howell – yn lle'r Cynghorydd B.D.J. Phillips;

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorwyr P.M. Hughes, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Diogelu'r Cyhoedd.

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Corfforaethol;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
S.E. Watts, Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd;
K. Davies, Rheolwr Datblygu Cynaliadwy;
D.W. John, Rheolwr y Gwasanaethau Gwastraff;
K. Thomas, Rheolwr Diogelwch Cymunedol;
R. James, Cyfrifydd Grŵp;
N. Evans, Swyddog Ynni Corfforaethol;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Siambr, 3 Heol Spilman - 10.00 am - 12.05 pm

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies, S.J.G. Gilasbey, A. James, B.D.J. Phillips, A.D.T.Speake a H.A.L. Evans [yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd].

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod(**ion**)	Y Math o Fuddiant
K.V. Broom	8 - Diweddariad Blynyddol ynghylch yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer	Mae ei gŵr yn gweithio i Gyfoeth Naturiol Cymru
D. Thomas	10 – Y Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd - y diweddaraf am y camau a gymerwyd	Yn berchen ar dir y mae llwybr troed cyhoeddus yn ei groesi

3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

5. TREFNIADAU TRIN A GWAREDU GWASTRAFF YN Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried ynghylch trefniadau trin a gwaredu gwastraff yn y dyfodol a oedd yn cynnwys amlinelliad o'r cynnydd a wnaed ledled y Sir.

Nododd yr Aelodau bod gwasanaethau ailgylchu a gwastraff presennol y Cyngor yn cael eu darparu gan CWM Environmental. Sefydlwyd y cwmni ym 1997 yn Gwmni Gwaredu Gwastraff yr Awdurdod Lleol (LAWDC) ar gyfer y Cyngor. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2015 daeth contract pymtheg mlynedd y Cyngor gyda CWM i ben, a rhoddwyd estyniad pontio o dair blynedd i ymestyn y contract hyd at fis Mawrth 2018. Roedd y Cyngor bellach yn y camau olaf o ystyried ei opsiynau ar gyfer sefydlu ei drefniadau rheoli gwastraff yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r broses hyd yma ac yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r arfarniad o ddewisiadau a gynhaliwyd ar lefel strategol. Nododd yr Aelodau fod yr arfarniad o'r dewisiadau wedi nodi nifer o fanteision o ran defnyddio dull Teckal i gaffael contractau trin gwastraff newydd y Cyngor. Ar sail canlyniadau'r arfarniad o ddewisiadau, datblygwyd achos busnes ar gyfer yr opsiwn a ffefrir. Roedd methodoleg yr achos busnes oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff wedi tynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith ers cynhyrchu'r adroddiad bod y rhan ynghylch Cynigion Llywodraethu wedi'i diweddaru i gynnwys yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd fel rhan o'r aelodaeth arfaethedig ar gyfer Bwrdd Rhanddeiliaid y Cyngor. Yn ogystal, roedd yr aelodaeth arfaethedig ar gyfer Bwrdd y Cwmni Teckal wedi'i ddiweddaru i gynnwys 2 Gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol.

Fel y nodir yn yr adroddiad, esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Gwastraff y camau nesaf gan nodi yn ystod datblygu'r arfarniad o ddewisiadau a'r achos busnes, fod y cyngor wedi elwa ar gyngor technegol, cyfreithiol ac ariannol allanol ac i'r perwyl hwnnw, argymhellwyd symud tuag at y cam gweithredu ar gyfer y cwmni Teckal newydd.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod Cwm Environmental yn mynd ati'n weithredol i gystadlu am gontractau allanol gan gynnwys contractau diweddar gydag Awdurdodau Lleol eraill gan gynnwys trin gwastraff o gynllun Casglu Gwastraff Gardd Cyngor Abertawe.

- Yn dilyn yr uchod cafwyd ymholiad ynghylch meincnodi, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff yr anawsterau o ran meincnodi yn erbyn busnesau eraill oherwydd natur a nifer y gwasanaethau a ddarperir a bodolaeth trefniadau traws-uned mewn perthynas ag ariannu. Ychwanegodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod y trefniadau contract allanol yn lleihau risg sefydliadol ac wrth edrych ymlaen, byddai angen gwaith ystadegol ychwanegol i bennu 'gwerth gorau' ac fel cwmni ceisio ennill y fantais orau posibl.

- Gofynnwyd a fyddai'r cwmni yn cystadlu'n deg gyda'r sector preifat. Cytunodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod hwn yn ffactor pwysig a sicrhaodd y Pwyllgor y byddai achos busnes yn cynnwys agweddau amlwg o ran diogelu swyddi a busnesau lleol.

- Yn dilyn ymholiad ynghylch y trefniadau dros dro, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gwastraff mai'r bwriad oedd dechrau ar y trefniadau newydd ym mis Ebrill 2018. Yn ogystal, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, yn dilyn cyngor cyfreithiol, ac oherwydd natur busnes Teckal, ni fyddai rheidrwydd dilyn proses gaffael, a byddai hyn yn cyflymu'r broses.

- Dywedwyd nad oedd dim o'r elw a wnaed gan Cwm Environmental wedi cael ei ddychwelyd i'r Cyngor. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod Cwm Environmental ar hyn o bryd yn masnachu fel cwmni hyd braich sy'n galluogi'r Awdurdod i fanteisio ar yr elw a wnaed trwy fuddsoddi mewn seilwaith sy'n gweithio tuag at gynyddu perfformiad ailgylchu'r Cyngor.

- Cyfeiriwyd at Fethodoleg yr Achos Busnes yn yr adroddiad. Er yr awgrymwyd yn yr adroddiad i fwrw ymlaen â senario 'Twf Busnes Cymedrol', teimlwyd y byddai'r senario 'Uchelgeisiau Twf Busnes' yn cyd-fynd orau. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff wrth ystyried y potensial rhanbarthol a'r cyfyngiadau amser penodol ynghyd ag ansicrwydd ynghylch y farchnad wastraff byddai'r senario 'Twf Busnes Cymedrol' yn darparu sail fwy addas ar gyfer cynllun busnes yn y tymor byr gyda'r lefel briodol o uchelgais yn y dyfodol.

- Gwnaed sylw bod lorïau gwastraff o'r Cyngor a Cwm Environmental yn y blynyddoedd blaenorol yn casglu o'r un mannau, a barnwyd bod hyn yn wastraff ar adnoddau. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y byddai'r sefyllfa hon yn digwydd yn aml oherwydd bod y Cyngor a Cwm Environmental mewn cystadleuaeth uniongyrchol, byddai hyn yn lleihau o ganlyniad i'r trefniadau yn y dyfodol.

- Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod ganddi hyder yn y gweithrediadau oedd yn cael eu darparu ac na fyddai hyn yn effeithio ar y cyhoedd yn ystod y cyfnod pontio.

- Gofynnwyd a fyddai Gogledd y Sir yn gweld gwelliant o ran gwasanaethau gwastraff yn dilyn ffurfio'r cwmni Teckal newydd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y byddai unrhyw welliannau gofynnol yn cael eu cynnwys fel rhan o strategaeth blaengynllunio.

- O ran y newyddion ynghylch Tsieina yn gwahardd mewnforio plastig, gofynnwyd sut y byddai hyn yn effeithio ar y gwasanaeth ailgylchu gwastraff yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff ybyddai Tsieina yn atal mewnforio papur cymysg a gwastraff poteli plastig yn gynnar y flwyddyn nesaf. Byddai'r gwaharddiad yn effeithio ar bob Awdurdod a byddai dull cydweithredol yn cael ei archwilio maes o law.

- Gofynnwyd am gadarnhad ynghylch trosglwyddo contractau'r holl weithwyr. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, yn amodol ar gyngor cyfreithiol, nid oedd Rheoliadau TUPE yn berthnasol i'r trefniant hwn a byddai holl delerau ac amodau'r staff yn parhau'r un fath. At hynny, byddai unrhyw weithwyr newydd yn cael eu cyflogi o dan delerau ac amodau'r cwmni Teckal.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

5.1 dderbyn y trefniadau trin a gwaredu gwastraff yn y dyfodol;

5.2 nodi canlyniad yr adolygiad o ddewisiadau ar gyfer gwasanaethau trin a gwaredu gwastraff yn y dyfodol;

5.3 nodi datblygiad presennol yr achos busnes ar gyfer yr opsiwn a ffefrir;

5.4 nodi'r camau nesaf ar gyfer cyflawni'r prosiect.

6. CYNLLUN GWASTRAFF GARDD

Cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried ynghylch y Cynllun Gwastraff Gardd. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa a'r canlyniadau o flwyddyn gyntaf y gwasanaeth o dalu am gasglu gwastraff gardd ar wahân ac yn nodi'r trefniadau a'r gweithrediadau'r ar gyfer 2018-19.

Nododd y Pwyllgor y cafwyd ymateb da i'r gwasanaeth casglu gwastraff gardd gyda thua 2500 o geisiadau am finiau gydag 2400 o gwsmeriaid yn cofrestru ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithredu. Roedd y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid wedi cofrestr ar-lein ac wedi elwa ar ostyngiad o 15%.

Roedd yr adroddiad yn darparu dadansoddiad manwl o weithrediad y flwyddyn gyntaf ynghyd â chynnig ar gyfer yr ail flwyddyn (2018/19).

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- O ran y cynnydd posibl mewn compost a gynhyrchir ledled y Sir, gofynnwyd a oedd unrhyw ffigurau ar gael ar gyfer faint o gompost oedd yn cael ei gynhyrchu. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff nad oedd ganddo unrhyw ffigurau, fodd bynnag, byddai angen i'r cwmni Teckal newydd gynnal ymchwil i'r farchnad ac yn edrych ar drefniadau ar gyfer y dyfodol o ran yr allbynnau sy'n deillio o gompostio glaswellt a bwyd gwastraff.

- Gwnaed sylw ynghylch y diffyg darpariaeth ar gyfer aelodau'r cyhoedd nad oedd yn gallu defnyddio whilfiniau, roedd hyn yn amlwg yn y dadansoddiad o'r nifer isel o sachau hesian a ddefnyddir. Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff yn cydnabod nad oedd modd i'r cynllun fod ar gael i holl aelodau'r cyhoedd lle'r oedd mynediad yn anodd ac nid oedd y sachau hesian yn darparu ateb hyfyw tymor hir i'r broblem. Byddai'r Cyngor yn parhau i adolygu'r opsiynau amgen.

- Cymerodd y Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y cyfle hwn i atgoffa'r Aelodau mai gwasanaeth dewisol oedd y gwasanaeth gwastraff gardd nad oedd rheidrwydd ar yr Awdurdod ei ddarparu, sy'n esbonio pam y codir tâl am y gwasanaeth.

- Cyfeiriwyd at yr Awdurdodau eraill sydd wedi gweithredu gwasanaethau gwastraff gardd am nifer o flynyddoedd a'r sylfaen cwsmeriaid a fyddai'n cyfateb i 7,400 o gartrefi yn Sir Gaerfyrddin. Gofynnwyd sut y byddai'r adran yn cyrraedd y nifer hyn o aelwydydd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff er y byddai anawsterau logistaidd roedd yn fodlon gyda nifer yr aelwydydd sef 7,400 fel cymharydd, fodd bynnag, y targed ar gyfer y gwasanaeth hwn fyddai ad-dalu costau ymhen 2 i 3 blynedd gyda sylfaen cwsmeriaid o tua 5,000.

- Er mwyn darparu rhagor o wybodaeth, cynigiodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd rannu achos busnes cychwynnol â'r Aelodau er mwyn cymharu â'r union ffigyrau wrth iddynt ddod i law. Consensws cyffredinol y Pwyllgor oedd y byddai hyn yn fuddiol.

- Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd ynghylch y costau, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff mai dim ond codi tâl ar gyfer casglu ac nid trin y gwastraff oedd modd ei wneud. Yn ogystal, dywedwyd wrth y Pwyllgor bod ffioedd wedi cynyddu 3% oherwydd costau chwyddiant.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

6.1 dderbyn yr adroddiad ar y Cynllun Gwastraff Gardd;
6.2 nodi'r cynigion a nodir yn yr adroddiad.

7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2017/18

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiadau Monitro ynghylch y Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf fel yr oeddynt ar 31 Hydref 2017, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2017/18. Roedd yr adroddiad yn rhoi i'r aelodau wybodaeth am fonitro'r gyllideb ar gyfer Gwasanaeth yr Amgylchedd, Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, a'r Gwasanaeth Diogelwch Cymunedol ac roedd yn rhoi ystyriaeth i'r sefyllfa gyllidebol. I grynhoi, roedd y gyllideb refeniw ar gyfer y gwasanaethau o fewn maes gorchwyl y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn rhagweld gorwariant o £227k.

Roedd y prif amrywiannau ar gynlluniau cyfalaf yn dangos gwariant net rhagweladwy o £10,982k o gymharu â chyllideb net weithredol o £11,651k gan roi amrywiant o £-669k.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at Atodiad B. O ran y tanwariant yn yr adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus, gofynnwyd pryd y byddai'r swyddi gwag yn cael eu llenwi. Dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod recriwtio ac ôl-lenwi swyddi yn ar waith ac yn digwydd ar yr un pryd. Fodd bynnag, roedd gwaith ychwanegol yn parhau o ran rhesymoli'r gwasanaethau gyda'r Adran Cymunedau a rhagwelwyd y byddai hyn yn cael ei gwblhau erbyn y chwarter nesaf.

- Gwnaed sylw ynghylch y galw am adeiladau diwydiannol ledled cefn gwlad ac oherwydd diffyg safleoedd roedd cryn dipyn o alw ar hyn o bryd ar gwmnïau preifat i ddarparu cyfleusterau o'r fath, a oedd yn anfanteisiol. Dywedodd y Pennaeth Eiddo fod deiliadaeth o 100% yn yr holl safleoedd diwydiannol yn Sir Gaerfyrddin ac roedd rhestr aros hir. Dywedodd yr Aelodau fod nifer sylweddol o unedau diwydiannol yng Nglanaman a bod unedau ychwanegol wedi cael eu hadeiladu mewn ardaloedd eraill gan gynnwys Beechwood a Llandeilo. At hynny, wrth i ffrydiau ariannu newydd ddod i'r amlwg y gobaith oedd darparu mannau diwydiannol ychwanegol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

8. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR ARDALOEDD RHEOLI ANSAWDD AER PRESENNOL YN SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ardal Rheoli Ansawdd Aer presennol yn Sir Gaerfyrddin. Atgoffwyd yr Aelodau fod Deddf yr Amgylchedd 1995 yn datgan bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a rheoli'r ansawdd aer yn eu hardal.

Roedd yr adroddiad yn darparu'r wybodaeth fanwl ddiweddaraf i'r Pwyllgor am lefelau NO^2 yn benodol yn nhref Llandeilo ac ardaloedd Caerfyrddin a Llanelli a oedd wedi gweld cynnydd yn lefelau NO^2 dros y blynyddoedd diwethaf.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at 2.3 yr adroddiad. Gofynnwyd am gadarnhad ynghylch darparu ffordd osgoi i Landeilo. Cadarnhaodd y Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd fod Llywodraeth Cymru yn cynnal gweithdy ar 16 Ionawr 2018 er mwyn dod o hyd i ffordd ymlaen. Ychwanegodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod wedi Swyddogion Priffyrdd wedi lobïo'n galed i sicrhau bod y broses yn mynd rhagddi'n gyflym.

- Er mwyn darparu gwybodaeth am ansawdd presennol yr aer mewn modd rhyngweithiol, awgrymwyd y gellid defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol a chyfleusterau testun i gyhoeddi canlyniadau NO^2. Roedd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd yn cydnabod er bod hwn yn awgrym da, oherwydd y dull o gasglu data, bob mis yn unig byddai'r data'n cael eu casglu ac felly ni fyddai ar gael ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth 'fyw' a 'chyfredol'. Cafwyd awgrym ychwanegol sef y gellid sicrhau mwy o ganlyniadau arloesol drwy weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd fod y tîm wedi gweithio o'r blaen gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru ac y gallai fod cwmpas i weithio gyda Phrifysgol Abertawe gan fod gan y brifysgol offer arbenigol angenrheidiol a'i bod ar hyn o bryd yn gweithio gydag unigolion â phroblemau anadlu.

- Mynegwyd pryderon cryf ynghylch y tagfeydd sylweddol a achosir gan y system goleuadau traffig newydd ar Heol Sandy, Llanelli. Eglurodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod y goleuadau traffig newydd wedi cael eu cynllunio i ganfod y llifau traffig ar bob cyffordd gan optimeiddio amseriadau'r goleuadau er mwyn lleihau'r tagfeydd. Dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y byddai'n gofyn i'r Pennaeth Priffyrdd a Chludiant i drafod y mater ymhellach gyda'r aelod lleol.

- O ran y problemau traffig parhaus ar Heol Sandy, Llanelli mynegwyd pryder y gallai lefelau NO^2 yn yr ardal honno godi o ganlyniad i'r tagfeydd. Cadarnhaodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd nad oedd hyn wedi'i gynnwys ar y cynllun gweithredu a bod monitro rheolaidd yn parhau.

- Cyfeiriwyd at adran 3.3 o'r adroddiad a nododd fel rhan o'r broses o gynllunio camau gweithredu, roedd gwaith yn cael ei gyflawni gydag ysgol gynradd yn ardal Caerfyrddin i fonitro ac asesu'r Ansawdd Aer ar dir yr ysgol. Gofynnwyd ynghylch ymestyn y gwaith monitro gydag ysgolion i ardal Llanelli. Dywedodd Rheolwr yr Amgylchedd a Diogelu fod trefniadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i drafod cynigion ar gyfer monitro'r Ansawdd Aer ar dir yr ysgol mewn ysgol gynradd yn Llanelli a fyddai'n cyd-fynd â'r prosiect sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn Ysgolion Caerfyrddin.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

9. DEFNYDD O YNNI YN ADEILADAU ANNOMESTIG Y CYNGOR

Roedd y Pwyllgor, yn ystod ei gyfarfod ar 17 Tachwedd, 2017 wedi penderfynu derbyn adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o ynni [cofnod 10]. Mewn ymateb i gais derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am y defnydd o ynni yn adeiladau annomestig y Cyngor a oedd hefyd yn cynnwys manylion am:-

- Mesuriadau Perfformiad
- Rhaglenni Effeithlonrwydd Ynni
- Rhaglen Adeiladu Tai Newydd
- Cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy

Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddogion am gynhyrchu'r adroddiad eglur a llawn gwybodaeth.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr hyn oedd y targedau. Dywedodd y Pennaeth Eiddo nad oedd targedau wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd nac yn fewnol, fodd bynnag roedd y tîm yn rhagweithiol yn ei waith ac yn ymdrechu i fod ar flaen y gad, gan chwilio am ffyrdd o leihau ein defnydd o ynni ymhellach. Ychwanegodd y Rheolwr Datblygu Cynaliadwy y byddai'n ystyried ac yn ymchwilio i unrhyw gyfleoedd i wella. Ychwanegodd y Swyddog Ynni Corfforaethol ei bod yn bwysig cofio bod mesurau effeithlonrwydd ynni, er efallai nad oeddent mor ddeniadol ag ynni adnewyddadwy, hefyd yn hanfodol.

- O ran y defnydd o drydan a chan ystyried y cyni ariannol presennol, gofynnwyd am sicrwydd bod y Cyngor yn cael y fargen orau bosibl. Sicrhaodd y Rheolwr Datblygu Cynaliadwy yr aelodau fod yr holl drydan yn cael ei gaffael drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) a'i fod yn dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy ac yn cynnig y pris gorau posibl.

- Mewn ymateb i ymholiad a wnaed mewn perthynas â darparu ynni adnewyddadwy i hen adeiladau, eglurodd y Rheolwr Datblygu Cynaliadwy fod hen adeiladau yn her, roedd yr holl fesurau sylfaenol yn cael eu cyflawni er mwyn gostwng y defnydd o ynni. Soniodd y Swyddog Ynni Corfforaethol am yr heriau a ddaw yn sgil statws Adeilad Rhestredig ond ychwanegodd fod gosod mesurau lleihau drafft a chael gwared a gwresogyddion chwythu wedi sicrhau arbedion.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi a derbyn yr adroddiad.

10. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

Cafodd y Pwyllgor adroddiad yn cynnwys manylion am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r camau, ceisiadau, neu atgyfeiriadau a gododd o gyfarfodydd ers 2 Hydref 2017.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

11. MATER WEDI EI GYFEIRIO GAN Y PWYLLGOR CRAFFU - POLISI AC ADNODDAU - GWARIANT AR LWYBR BEICIO DYFFRYN TYWI

Cynghorwyd y Pwyllgor bod y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau, yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr, yn dilyn ystyried y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Swyddfeydd, wedi penderfynu "gofyn i'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd i graffu ar wariant Llwybr Beicio arfaethedig Dyffryn Tywi."

Er mwyn i'r Pwyllgor ymgymryd â'r cais, gofynnwyd am adroddiad yn darparu gwybodaeth fanwl am y gwariant ar Lwybr Beicio arfaethedig Dyffryn Tywi a'i gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gyflwyno adroddiad ar y gwariant ar Lwybr Beicio arfaethedig Dyffryn Tywi yn y cyfarfod nesaf.

12. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Bu'r Pwyllgor yn ystyried rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod oedd i'w gynnal ar 2 Mawrth 2018 a rhoddwyd y cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am wybodaeth i'w chynnwys yn yr adroddiadau.

Nododd yr Aelodau oherwydd camgymeriad gweinyddol, byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Buddsoddi mewn Diogelwch Ffyrdd, Priffyrdd a Throedffyrdd a oedd fod i gael ei hystyried yn ystod y cyfarfod hwn bellach yn cael ei dwyn gerbron y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Oherwydd y nifer uchel o eitemau sydd wedi'u rhestru i'w hystyried yn y cyfarfod ar 2 Mawrth 2018 ac er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n parhau i i ddarparu swyddogaeth graffu effeithiol, cynigiwyd trefnu cyfarfod Pwyllgor ychwanegol ym mis Chwefror 2018 a bod rhai eitemau ar y rhestr eitemau sydd ar y gweill yn cael eu hystyried.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-

12.1 nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 2 Mawrth 2018;

12.2 trefnu Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ychwanegol ym mis Chwefror 2018.

13. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALWYD AR Y

13.1. 17EG TACHWEDD 2017

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2017, gan eu bod yn gywir.

13.2. 11EG RHAGFYR 2017

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2017 gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD **DYDDIAD**